
Pennaeth Mewn Gofal

Mrs Sara Morris

✉ SaraMorris@gwynedd.llyw.cymru

☎ 01678 520278



Ysgol Bro Tegid

BALA

Gwynedd

LL23 7BN

Annwyl rieni a gofalwyr,

Fel y gwyddoch o'r cylchlythyr diwethaf a anfonwyd cyn hanner tymor, rwyf yn cychwyn ar fy swydd fel pennaeth mewn gofal o'r wythnos yma ymlaen. Byddaf yn parhau i ddysgu Blwyddyn 4 a 5 am 3 ½ diwrnod ac yn gwneud gwaith swyddfa am 1 ½ diwrnod. Bydd Mrs Leisa Jarman sydd yn gweithio yn yr ysgol yn barod yn ngofal y dosbarth yn y cyfnod yma. Ar ran yr holl staff hoffwn ddiolch yn fawr i Mrs Bethan Jones am yr arweiniad cadarn yr ydym wedi ei gael yn ystod ei chyfnod yma. Rydw i'n edrych ymlaen i wynebu'r sialens newydd yma a pharhau i gydweithio'n agos â chi fel rhieni.

Noson Cwis – Diolch i'r pwyllgor rhieni ac athrawon am drefnu'r noson gymdeithasol yma ar noson ola'r hanner tymor ac i bawb a gyfrannodd at y raffl. Cafwyd noson hwyliog iawn a diolch i John Glyn am fod yn gwisfeistr ardderchog ac i staff y clwb golff am y bwyd bendigedig. Llongyfarchiadau i'r enillwyr sef Tim, Haf, Eilian, Dave ag Ema!

Cyfarfod Rhieni ac Athrawon – Nos Fawrth yma (heno) y 7fed o Dachwedd yn Y Plas Coch am 8 o'r gloch i drafod y ffair Nadolig a syniadau eraill i godi arian. Rydym fel ysgol yn gwerthfawrogi'n fawr y gwaith caled y mae'r gymdeithas rieni yn ei wneud er mwyn sicrhau profiadau a chyfleoedd gwych i'n plant. Dewch yn llw!

Lluniau Tempest – Mae nifer ohonoch wedi dod a'ch archeb lluniau yn ôl yn barod. Os nad ydych, mae angen gwneud hynny cyn Dydd Mercher, Tachwedd yr 8^{fed}. Ni fyddwn yn gallu anfon unrhyw luniau ar ôl y dyddiad yma.

Cystadleuaeth siopa hwyr, Y Bala – Eleni eto, cynhelir cystadleuaeth arbennig i blant ysgolion cynradd yr ardal. Dosbarthwyd llythyr gyda manylion y gystadleuaeth gan grŵp busnesau'r Bala cyn y gwyliau. Dylunio llusern allan o ddefnydd wedi'i ail-gylchu yw'r gamp eleni. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r ysgol. Bydd angen i'r gwaith ddod i'r ysgol erbyn y 5/12/'17 os gwelwch yn dda. Yr ysgol fydd yn gyfrifol am gludo'r gwaith i Siop Ria.

System Talu ar – lein – Mae'r system talu ar-lein wedi cychwyn ers cyn hanner tymor ac mae rhai ohonoch wedi ei ddefnyddio yn barod. Cofiwch bod modd talu arian cinio ac unrhyw weithgaredd arall ar-lein. Os ydych yn cael anhawster o unrhyw fath cysylltwch â Mrs Sara Morris neu Mrs Eiliw Davies ac mi fyddwn yn fwy na pharod i'ch helpu.

Gwersi Rygbi – Dosbarthiadau Blwyddyn 4, 5 a 6 sef Mrs Morris a Mr Williams fydd yn cael gwersi rygbi gyda Euros yr hanner tymor yma ar brynhawn Dydd Iau. Bydd angen dillad chwaraeon cynnes ac esgidiau addas i fynd ar y cae bob wythnos os gwelwch yn dda.

Mae hanner tymor prysur iawn o'n blaenau! Er eich bod wedi cael rhestr o ddigwyddiadau ar gyfer y flwyddyn yn ôl ym mis Medi dyma grynhoi y prif ddigwyddiadau hyd at y Nadolig.

Sylwch fod ambell i newid.

9/11/'17	Dyddiad olaf ar gyfer derbyn bocsus Operation Christmas Child.
9/11/'17	Cystadleuaeth Pelrwyd Chwaraeon Cymru yn Ganolfan Hamdden Porthmadog
11/11/'17	Gala Nofio'r Urdd – Pwll Nofio Harlech
14/11/'17	Cystadleuaeth Pel-rwyd yr Urdd, Cylch Penllyn – 4 o'r gloch yn y Ganolfan Hamdden
17/11/'17	Diwrnod Plant Mewn Angen – mwy o wybodaeth i ddilyn gan y cyngor ysgol
22/11/'17	Cystadleuaeth gymnasteg, Blaenau Ffestiniog – 6 o'r gloch
29/11/'17	Ffair Nadolig yn yr ysgol – 5 o'r gloch
5/12/'17	Gwaith celf noson siopa hwyr (lluserni) i mewn i'r ysgol
11/12/'17	Pantomeim Culhwch ac Olwen yn Pontio, Bangor – disgyblion Bl.4,5 a 6
14/12/'17	Diwrnod Cinio Nadolig !
18/12/'17	Cyngerdd/Sioe Nadolig Bro Tegid yn Neuadd Buddug am 6 y.h
19/12/'17	Pantomeim Caban Hud yn Pontio Bangor – disgyblion derbyn, Bl.1,2 a 3
19/12/'17	Disgo'r Urdd (Bl.3-6)
21/12/'17	Parti Nadolig (prynhawn) – pawb yn eu dillad eu hunain drwy'r dydd.
22/12/'17	Diwrnod Siwmpwr Nadolig – Pawb i wisgo siwmpwr Nadolig a thalu £1 – elusen 'Achub y Plant'

Clwb yr Urdd (nos Iau) – Bydd clwb yr Urdd yn cyfarfod ar y 9fed, 16eg a'r 23ain o Dachwedd. Ni fydd Urdd o hynny ymlaen tan ar ôl y Nadolig.

Dyna ni am y tro!

Diolch am eich cydweithrediad,

Sara Morris (Pennaeth mewn gofal)

